## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Gwener 5ed Tachwedd 2010 am 10.00a.m.

### YN BRESENNOL

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), Y Cynghorwyr G.A. Green, H.Ll. Jones a Ms M.E. Medley, Mr G.F. Roberts a Mrs P. White.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Swyddog Monitro a'r Swyddog Gweinyddol (C.I. Williams).

### 454 YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

### 455 DATGAN BUDDIANNAU

***PENDERFYNWYD –*** *na ddatganodd yr Aelodau unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu mewn unrhyw eitem i'w thrafod yn y cyfarfod hwn.*

### 456 MATERION BRYS

NI chodwyd unrhyw faterion a ddylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 457 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar ddydd Gwener, 24ain Medi 2010.

***PENDERFYNWYD*** *- derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

### 458 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig ar bresenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cyngor Sir, Tref neu Gymuned.

Hysbysodd Mr G F Roberts y Pwyllgor Safonau iddo fynychu cyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes ar ddydd Iau, 4ydd Tachwedd 2010 yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Esboniodd ei fod yn falch o adrodd bod y Pwyllgor Craffu wedi ymgymryd â'i waith yn effeithiol ac effeithlon.

Mewn ymateb i gais gan Ms M.E. Medley ar ddarparu manylion amserau, dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, cytunodd y Swyddog Monitro y gellid dosbarthu rhestri gyda'r wybodaeth hon, a oedd yn cael eu llunio gan y Rheolwr Ymgysylltiad ac Ymgynghoriad yn yr Uned, unwaith y byddant wedi eu cwblhau.

Esboniodd Mr G F Roberts bod manylion Clercod Cynghorau Tref a Chymuned, gan gynnwys rhifau ffôn, wedi eu cynnwys yn nyddiadur y Cyngor Sir. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu â Chlerc y Cyngor perthnasol cyn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned i ofyn am gadarnhad y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal, ac i'w hysbysu o'i fwriad i fynychu'r cyfarfod. Mynegodd y Cynghorydd G.A. Green y farn y gallai fod yn fanteisiol, mewn rhai achosion, pe na byddai presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei gyhoeddi cyn y cyfarfod. Teimlai y byddai hyn yn galluogi i'r Aelodau nodi sut cynhelid cyfarfodydd dan amgylchiadau arferol.

***PENDERFYNWYD –*** *cydnabod y sefyllfa.*

**459 CYNGOR TREF A CHYMUNED – SWYDD WAG**

Esboniodd y Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ar 24ain Medi 2010, wedi cydnabod ymddiswydiad y Cynghorydd D.A. Thomas o'r Pwyllgor Safonau a'r cynnig bod ystyriaeth yn cael ei roddi gan y Cyngor Llawn i benodi un o'r enwebai a oedd wedi cyflwyno cais adeg penodi'r Cynghorydd Thomas. Hysbysodd yr Aelodau, yn wyneb yr amser a oedd wedi mynd heibio ers yr ymgynghoriad diwethaf ar ôl Etholiadau'r Cyngor yn 2008, bod y Cyngor Llawn wedi gofyn i'r Swyddog Monitro ail-ymgynghori gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'u Cymdeithasau i ofyn am enwebiadau a datganiadau cefnogi neu Curriculum Vitae mewn perthynas â'r swydd wag.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, darparodd y Swyddog Monitro fanylion y meini prawf ar gyfer penodi Aelod Cyngor Tref a Chymuned i'r swydd wag. Tanlinellodd bwysigrwydd trin pob enwebiad yn gyfartal tra'n cael cydbwysedd daearyddol, rhyw, a ieithyddol ynghyd ag archwilio holl amgylchiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r penodiad.

Ar ôl trafodaeth bellach, fe:-

***BENDERFYNWYD –** bod y Pwyllgor Safonau yn cydnabod y sefyllfa a phenderfyniad y Cyngor Llawn bod y Swyddog Monitro yn ail-ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned a'u Cymdeithasau i ofyn am enwebiadau a datganiadau cefnogi ar gyfer y swydd wag.*

**460 CYNHADLEDD SAFONAU YNG NGHYMRU**

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor bod y Cadeirydd, y Cynghorydd G A Green, a'r Swyddog Monitro wedi mynychu'r Gynhadledd Safonau yng Nghymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 14eg Hydref 2010, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 24ain Medi 2010. Esboniodd Mrs P. White nad oedd wedi medru mynychu Cynhadledd Safonau Cymru 2010 oherwydd ymrwymiadau teuluol.

Cyflwynodd y sawl a fynychodd Gynhadledd Safonau Cymru 2010 adroddiadau ar y Sesiynau Gweithdy a fynychwyd ganddynt:-

**Gweithdy – Sesiwn Un**

Materion Cynghorau Tref a Chymuned – Y Cynghorydd G A Green a'r Swyddog Monitro.
Gwrandawiadau Pwyllgor Safonau a Moeseg - Cadeirydd

**Gweithdy – Ail Sesiwn**

Ymgysylltu gyda'r Cyfryngau Cymdeithasol newydd – Y Cynghorydd G A Green
Pwyllgorau Safonau a Moeseg Rhagweithiol – y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro

Hysbysodd y Cynghorydd G A Green yr Aelodau bod y siaradwr yn y sesiwn Ymgysylltu gyda'r Cyfryngau Cymdeithasol Newydd wedi hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol, gan bwysleisio'r agweddau buddiol heb grybwyll yr elfennau negyddol. Cyfeiriwyd at beryglon posibl rhoi cyhoeddusrwydd i ddeunydd ysgrifenedig a pheryglon bod yn agored i ymgyfreithiad. Tanlinellodd fuddiannau a'r agweddau cadarnhaol mewn cysylltiad â phecynnau cyfryngau cymdeithasol o ran monitro neu wrando, lle gellid cael gwybodaeth a oedd yn ymwneud ag ardaloedd lleol a chymdogaethau. Tanlinellwyd y peryglon posibl i unigolion gan y Cynghorydd Green hefyd, megis Cynghorwyr sy'n chwarae rhan mewn neu'n ymateb i sylwadau a wneir ar safleoedd rhwydwaith cymdeithasol megis blogiau neu Twitter.

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cynghorydd Green eu bod hefyd wedi edrych ar wefannau Cynghorau Sir eraill yn ystod y sesiwn, a rhoddodd fanylion ac enghreifftiau o sut 'roedd Awdurdodau Lleol eraill wedi gwella a hyrwyddo eu gwefannau. Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cynghorydd Green bod mynychu Cynhadledd Safonau Cymru 2010 wedi bod yn werth chweil a'i bod yn ddiwrnod difyr dros ben.

Esboniodd y Swyddog Monitro bod y Pennaeth Gofal Cwsmeriaid wedi gwneud gwaith ar y Cyfryngau Cymdeithasol ac wedi gofyn am arweiniad ar a ellid cyflwyno'r pwnc hwn i gyfarfod Anffurfiol o'r Cyngor i'w ystyried. Hysbysodd yr Aelodau bod y canllawiau perthnasol wedi eu hystyried a theimlai y

gallai mynd ar y trywydd hwn gynorthwyo o ran gwella llinellau cyfathrebu a chytuno a phennu paramedrau. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd yr Aelodau bod y Swyddog Monitro yn cyfleu cefnogaeth y Pwyllgor Safonau i'r Pennaeth Gofal Cwsmeriaid mewn perthynas â gwneud gwaith pellach ar y pwnc hwn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y sesiwn Pwyllgorau Safonau a Moeseg Rhagweithiol. Teimlai mai'r consensws cyffredinol oedd dychwelyd i'r system flaenorol lle'r oedd Cynghorau Sir, fel yn Lloegr, yn trin cwynion a dderbyniwyd eu hunain yn hytrach na'u cyfeirio at yr Ombwdsmon. Esboniodd y Cadeirydd nad oedd ef yn bersonol wedi cefnogi'r farn hon a hybsysodd yr Aelodau bod barn wedi newid wrth i'r seswn fynd yn ei blaen, ac awgrymwyd bod Pwyllgorau Safonau yn dod yn fwy rhagweithiol. Cyfeiriodd at enghreifftiau a roddwyd a thanlinellodd bwysigrwydd adnabod a gwahaniaethu rôl Pwyllgorau Safonau rhwng monitro ac o bosib gorchymyn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at achos yn ddiweddar lle'r oedd Cynghorydd Sir wedi ei ddiswyddo o swydd yn y Cyngor Sir gyda'r hyn a ymddangosai yn gyfeiriad ysgrifenedig ar dor-rheol posibl y Cod Ymddygiad. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y trafodaethau a gafwyd yn y sesiwn Pwyllgorau Safonau a Moeseg Rhagweithiol, mewn perthynas ag a ddylai Pwyllgorau Safonau ddod yn fwy rhagweithiol, a holodd a ddylai'r Pwyllgor Safonau ymyrryd yn yr achos penodol hwn, ar ôl dod yn ymwybodol o'r tor-Cod Ymddygiad honedig. Esboniodd y byddai angen adrodd i'r Ombwdsmon am y mater. Fodd bynnag, pe byddai Aelod o'r Pwyllgor Safonau yn adrodd ar y mater i'r Ombwdsmon, ni fyddai wedyn yn medru cymryd rhan mewn unrhyw Wrandawiad ar y gŵyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G A Green at y llythyr a anfonwyd at holl Gynghorwyr Sir, yn eu hysbysu o'r sefyllfa dan sylw, lle'r oedd yn ystyried bod awgrym wedi ei wneud ynglŷn â thor-Cod Ymddygiad. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gamau a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau yn cael eu gweld fel rhai agored a thryloyw. Tanlinellodd Mr G.F. Roberts yr angen i gael yr holl ffeithiau a'r wybodaeth berthnasol ar yr achos dan sylw cyn dod i unrhyw benderfyniad.

Esboniodd y Swyddog Monitro bod y Gynhadledd Safonau yng Nghymru wedi rhoi neges glir y dylai Pwyllgorau Safonau fod yn fwy rhagweithiol ac ymgysylltu mwy gyda'r fecanwaith wleidyddol a democrataidd. Fodd bynnag, mynegodd y farn nad oedd ymyrraeth benodol o reidrwydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau. Tanlinellodd y Swyddog Monitro bwysigrwydd sefydlu ffiniau ar gyfer Pwyllgorau Safonau rhagweithiol a'r angen i adnabod rôl Aelodau Lleol a'r llinell rhwng buddiannau lleol, personol a rhai sy'n rhagfarnu.

Ystyriodd yr Aelodau'r ffeithiau ger eu bron a gofyn bod y Swyddog Monitro yn cyfleu i Arweinydd y Cyngor Sir y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Safonau a gofyn am ei farn ar ba gamau y byddai'n eu cymryd mewn perthynas â'r mater hwn.

Ar ôl trafodaeth bellach, fe:-

***BENDERFYNWYD –*** *bod y Swyddog Monitro yn cyfleu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Safonau i Arweinydd y Cyngor Sir a gofyn am ei farn ar ba gamau y byddai'n eu cymryd yn y mater hwn.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.

**********